Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Tachwedd 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos oni bai eu bod yn rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych chi'n ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall, os gwelwch yn dda:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- Anfonwch e-bost at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | | 7 |
| Ein canfyddiadau | | 9 |
| Argymhellion | | 16 |
| Atodiadau | | 18 |
| 1 | Ynglŷn â'n gwaith | 19 |
| 2 | Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu | 21 |
| 3 | Buddion y Cynllun Gwasanaeth | 26 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn yr edrychom arno

1 Edrychom i weld a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yn cefnogi'r Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu (y gwasanaeth) i gyflawni gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau.

2 Roedd yr archwiliad hwn yn canolbwyntio ar y tîm Rheoli Datblygu a'r Tîm Polisi Cynllunio Strategol yng Ngwasanaeth Cynllunio a Datblygu'r Cyngor. Mae Rheoli Adeiladu, Trafnidiaeth Strategol a Rheoli Datblygu Priffyrdd yn wasanaethau o fewn y gwasanaeth Cynllunio a Datblygu, ond ni wnaethom gynnwys y rhain yn yr archwiliad hwn.

3 Rydym yn nodi perfformiad y Gwasanaeth ond ni wnaethom archwilio'r rhesymau dros ei berfformiad na rhoi barn arno.

4 Nid ydym yn edrych ar benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol.

5 Fe wnaethom gynnal yr archwiliad hwn rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2025.

6 Ym mis Ionawr 2025, daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy’n perfformio’n dda' i ben. I grynhoi, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

- cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio;
- newid y fframwaith rheoli perfformiad;
- cadw sgiliau, bwrsarïau a phrentisiaethau Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau)
- gwella cydnerthedd ac adnoddau gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig gan gynnwys ymestyn cyfnod Adolygu Cynllun Datblygu Lleol.

7 Ar adeg yr archwiliad hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau yn ffurfiol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r archwiliad hwn, felly, yn adlewyrchu trefniadau'r gwasanaeth cyn unrhyw newidiadau gan Lywodraeth Cymru.

## Pam mae hyn yn bwysig

8 Gall Gwasanaeth Cynllunio chwarae rôl allweddol wrth gefnogi cynghorau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae'r gwasanaeth yn ysgrifennu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a pholisïau sy'n nodi pa fath o ddatblygiad sy'n addas mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref. Mae'r CDLl yn gadael i wasanaethau eraill y Cyngor yn ogystal â datblygwyr, cymunedau a thrigolion wybod pa fath o ddatblygiad all ddigwydd a ble.

9 Mae'r gwasanaeth a Phwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor (y Pwyllgor) yn penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae'r ceisiadau hyn yn amrywio o ddatblygiadau mawr, megis adeiladau ysgol newydd, tai ac ystadau diwydiannol, i estyniadau tai, neu newid defnydd adeiladau. Wrth benderfynu a ddylid eu cymeradwyo, maent yn cydbwyso'r angen am dai, busnesau a seilwaith newydd â phwysigrwydd diogelu'r amgylchedd ac amwynderau lleol.

10 Mae'r gwasanaeth yn gweithio i gynnal y dreftadaeth naturiol ac adeiledig a'r amgylchedd. Mae ganddo hefyd bwerau gorfodi i weithredu yn erbyn unrhyw ddatblygiad sy'n digwydd heb y caniatâd angenrheidiol.

## Yr hyn a ganfuom

11 Mae gan y Cyngor gydnabyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r rôl bwysig sydd gan y gwasanaeth wrth gefnogi ei flaenoriaethau. Mae gwendidau wrth reoli adnoddau a risg i gefnogi'r gwasanaeth. Nid oes gan y gwasanaeth gynllun gwasanaeth ac mae dealltwriaeth a throsolwg cyfyngedig o berfformiad y gwasanaeth. Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr sy'n cefnogi ei bwyllgor Rheoli Datblygu.

## Yr hyn rydym ni'n ei argymell

12 Gwnaethom bedwar argymhelliad i'r Cyngor sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau, cynllunio gwasanaethau, rheoli risg a pherfformiad.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

- Yn ystod 2024-25, derbyniodd y Gwasanaeth 707 o geisiadau cynllunio. Penderfynwyd ar 594 gyda 58 o geisiadau wedi'u tynnu'n ôl.

- Ym mis Ebrill 2025, roedd gan y Gwasanaeth ôl-groniad o 279 o geisiadau cynllunio. Roedd hwn yn gynnydd ar ôl-groniad o 224 o geisiadau cynllunio o'r flwyddyn flaenorol.

- Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd gan y swyddogion Rheoli Datblygu (cynllunio) a staff asiantaeth gyfanswm o 400 o geisiadau cynllunio i benderfynu arnynt. Roedd hyn yn 50 o geisiadau cynllunio yr un ar gyfartaledd.

- Mae gan yr Arweinwyr Tîm Rheoli Datblygu, y Rheolwr Rheoli Adeiladu a Datblygu a Rheolwr Grŵp hefyd geisiadau cynllunio i benderfynu arnynt

Mae gan y Gwasanaeth darged incwm o ffioedd ceisiadau cynllunio:

- Targed incwm 2023-24 oedd £832,092. Cyflawnodd y gwasanaeth £408,028.
- Targed incwm 2024-25 oedd £760,266. Cyflawnodd y gwasanaeth £481,450.
- Targed incwm 2025-26 yw £952,060. Ar ddiwedd Mehefin 2025, roedd y gwasanaeth wedi derbyn £353,448.

Mae'r Gwasanaeth wedi gwario'r canlynol ar staff asiantaeth:

- £28,366 yn 2022-23
- £88,431 yn 2023-24
- £91,514 yn 2024-25

Y Cyngor yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyntaf ers pandemig COVID-19 i gymeradwyo Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN).

# Ein canfyddiadau

## Mae gan y Cyngor gydnabyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r rôl bwysig sydd gan y gwasanaeth Cynllunio a Datblygu wrth gefnogi ei flaenoriaethau

14 Mae uwch swyddogion o'r gwasanaeth yn ymwneud â gwahanol fyrddau rhaglenni, sy'n helpu i sicrhau bod prosiectau mawr yn derbyn cyngor cynllunio proffesiynol yn gynnar. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym yn aml fod gwasanaethau'r Cyngor yn ymgysylltu â'r gwasanaeth yn rhy hwyr. Mae hyn yn golygu y gall datblygiadau cynllunio fod ar gam datblygedig cyn ymgynghori â'r gwasanaeth. Os yw'r gwasanaeth yn canfod nad yw datblygiadau cynllunio yn unol â chanllawiau cynllunio neu'r CDLIN, gall oedi cynnydd. Gallai effeithio ar fodloni terfynau amser cyllido a gall olygu bod adnoddau wedi'u dyrannu i brosiectau nad ydynt yn bodloni polisïau cynllunio. Mae oedi yn achosi rhwystredigaeth a gall fod oherwydd diffyg dealltwriaeth o rôl y gwasanaeth a pham mae ymgysylltu cynnar yn bwysig.

15 Nid yw Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cyfeirio at y gwasanaeth yn dilyn newidiadau i'r cynllun ym mis Ebrill 2025. O ystyried bod datblygiadau cynllunio mawr ar y gweill yn y Fwrdeistref, mae'n syndod nad oes gan y gwasanaeth broffil uwch yn y Cynllun Corfforaethol. Mae llawer o'r nodau o fewn Amcanion Llesiant y Cyngor a'i CDLIN, er enghraifft, yn cynnwys ailddatblygu safleoedd, adeiladu rhai newydd, adfywio a chreu lleoedd. Ni ellir cyflawni'r rhain heb y gwasanaeth, ond mae eu rôl bwysig yn absennol.

## Mae gwendidau wrth reoli adnoddau a risgiau i gefnogi'r gwasanaeth Cynllunio a Datblygu

### Rheoli adnoddau

16 Mae'r gwasanaeth yn wynebu ystod o heriau adnoddau, sy'n peri risg i'w gydnerthedd i fodloni ei holl ofynion. Nid yw'r gwasanaeth wedi cyrraedd ei dargedau incwm yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cyflwynodd y gwasanaeth adroddiadau yn nodi ei heriau, ei lwyth gwaith a'i anghenion adnoddau i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet (BRhCC) ym misoedd Hydref 2020, Rhagfyr 2022, Tachwedd 2024, ac Ebrill 2025. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi'n glir yr effaith bosibl ar allu'r gwasanaeth i gefnogi gwaith cyflawni prosiectau mawr y Cyngor a'i ofynion cystadleuol.

17 Mae'r trefniant cyllido presennol ar gyfer y gwasanaeth yn seiliedig ar 70% o incwm ffioedd o geisiadau cynllunio a 30% o gyllid y gyllideb sylfaenol. Ni welsom fod hyn yn seiliedig ar fodelu cadarn a chynllunio ariannol. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn dibynnu ar incwm ffioedd cynllunio sy'n amrywio ac y gall ffactorau allanol y tu allan i reolaeth y Cyngor effeithio arno. Nid yw'r trefniant hwn yn darparu sefydlogrwydd i'r gwasanaeth ac yn ei gwneud hi'n anodd iddo gynllunio dros y tymor canolig a'r tymor hir.

18 Yn 2022, cyflwynodd y gwasanaeth strwythur staff newydd arfaethedig i'r BRhCC gyda chyllideb uwch o £646,000. Ni chafodd y gwasanaeth gynnydd parhaol yn y gyllideb ond yn hytrach derbyniodd swm untro o £365,000 o gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi yn ateb tymor byr ac nid yw'n cefnogi'r gwasanaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn bellach yn wag. Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd y gwasanaeth yn paratoi i gyflwyno cais twf i gynyddu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2026-27 fel rhan o broses gosod cyllideb flynyddol y Cyngor.

19 Nid yw cyllideb flynyddol y gwasanaeth yn adlewyrchu’n wirioneddol gostau darparu'r gwasanaeth. Nid yw'n cynnwys y gost o ddefnyddio staff asiantaeth, er bod y gwasanaeth wedi defnyddio staff asiantaeth am o leiaf dair blynedd. Cyfanswm y swm a wariwyd ar staff asiantaeth rhwng 2022-23 a 2024-25 yw £208,311. Ar ddiwedd Mehefin 2025, roedd y gwasanaeth wedi gwario £35,104. Ar adeg yr archwiliad hwn, nid oedd unrhyw asesiad gwerth am arian wedi'i gynnal ar y defnydd o staff asiantaeth.

20 Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y gallai gynhyrchu oddeutu £116 miliwn mewn arian Adran 106[1] (S106) dros gyfnod ei CDLIN. Gall yr arian hwn helpu i ariannu prosiectau seilwaith cymunedol, fel parciau a chyfleusterau cymunedol. Er mwyn rheoli a monitro dyraniad arian S106, yn gynnar yn 2025, cymeradwyodd y Cyngor sefydlu tîm S106 a Chyflawni Seilwaith. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cael adnodd pwrpasol i oruchwylio'r arian hwn a lliniaru'r potensial ar gyfer unrhyw danwariant o arian S106.

## Rheoli risgiau

21 Nid oes gan y gwasanaeth gofrestr risgiau gwasanaeth sy'n nodi ei risgiau presennol ac yn y dyfodol a sut mae'n rheoli ac yn lliniaru'r rhain. O ganlyniad, nid oes unrhyw drefniadau ar gyfer cofnodi a goruchwylio risgiau gwasanaeth ac nid oes unrhyw ffordd i asesu sgoriau risg neu uwchgyfeirio risgiau perthnasol i Gofrestr Risgiau’r Gyfarwyddiaeth.

22 Dywedwyd wrthym mai risg sylweddol a hirsefydlog i'r gwasanaeth yw ei allu i gefnogi cyflawni rhaglen adfywio'r Cyngor a'i gyfrifoldebau statudol. Er enghraifft, disgwylir i CDLIN y Cyngor ddenu mwy o ddatblygwyr i'r Fwrdeistref gyda chynnydd disgwyliedig mewn ceisiadau cynllunio mawr. Gall y ceisiadau cynllunio hyn helpu'r Cyngor i gyflawni buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniant rheoli risg er mwyn i'r Cyngor sicrhau ei hun fod ganddo allu yn y gwasanaeth i ymateb i'r cynnydd hwn mewn diddordeb.

[1] Mae cytundeb Adran 106 (A106) yn gontract preifat cyfreithiol rhwymol rhwng datblygwr (neu nifer o bartïon â diddordeb) ac Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) sy'n gweithredu ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio statudol.

## Nid oes gan y gwasanaeth gynllun gwasanaeth ac mae dealltwriaeth a throsolwg cyfyngedig o berfformiad y gwasanaeth

### Cynllunio gwasanaeth

23 Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r gofyniad corfforaethol i gael cynllun gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn nodi'n glir yn ei Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP) y dylai gwasanaethau gael cynllun gwasanaeth. Dylai'r rhain lywio Cynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth a'r Cynllun Corfforaethol. Er bod Cynllun Busnes Cymunedau blynyddol lefel uchel, mae diffyg cynllunio gwasanaeth o fewn y gwasanaeth.

24 Heb gynllun gwasanaeth, nid yw'r gwasanaeth yn darparu eglurder ar ei flaenoriaethau, ei berfformiad a'i risgiau. Nid yw'r gwasanaeth ychwaith yn nodi sut y bydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau. Nid yw'r Cyngor yn cefnogi gwasanaethau i fodloni'r gofyniad corfforaethol hwn trwy ddarparu templed cynllun gwasanaeth. Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor yn monitro cydymffurfiaeth â'i ofynion cynllunio gwasanaeth yn ei FfRhP. Rydym yn nodi yn **Atodiad 3** rai o'r manteision sylweddol o gael cynllun gwasanaeth.

### Trosolwg o berfformiad

25 Mae ymwybyddiaeth gyfyngedig o berfformiad y gwasanaeth. Bob chwarter, mae'r gwasanaeth yn anfon ei berfformiad i Lywodraeth Cymru ar gyfer sawl dangosydd cenedlaethol.[2] Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth yn dadansoddi'r data hwn ac nid oes trosolwg y tu allan i'r gwasanaeth er mwyn deall ei berfformiad.

26 Clywsom yn gyson y naratif bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wneud y penderfyniadau cywir yn hytrach nag ar amseroldeb gwneud penderfyniadau. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn tanberfformio o ran amseroldeb gwneud penderfyniadau, fodd bynnag, nid yw'r holl ddata perfformiad yn cefnogi hyn.

---


[2] Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW. CYMRU

27 Mae dau brif ddangosydd cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer monitro amseroldeb gwneud penderfyniadau:

- canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt mewn amserlenni statudol a chytunedig;
- yr amser cyfartalog a gymerir i benderfynu ar bob cais mewn diwrnodau.

28 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 1**, ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025, perfformiodd y gwasanaeth yn gyson ymhell yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn amserlenni statudol a chytunedig.


### Arddangosyn 1: canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn amserlenni statudol a chytunedig




Ffynhonnell: Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW.CYMRU, Gorffennaf 2025

29 Fodd bynnag, fel y dangosir yn **Arddangosyn 2**, ar wahân i Ch1 2024-25 (mis Ebrill i fis Mehefin 2024) a Ch4 2024-25 (mis Ionawr i fis Mawrth 2025), perfformiodd y gwasanaeth yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru dros y cyfnod o ddwy flynedd am yr amser cyfartalog mewn diwrnodau i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Felly, mae'r gwasanaeth yn perfformio'n well na llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) o ran yr amser a gymerir i wneud penderfyniadau.

**Arddangosyn 2: amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau cynllunio, mewn diwrnodau.**




Ffynhonnell: Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW.CYMRU, Gorffennaf 2025

30 Canfuom dystiolaeth gyfyngedig o unrhyw bwyllgor cyhoeddus yn derbyn gwybodaeth am berfformiad, risgiau a gweithgarwch y gwasanaeth yn y ddwy flynedd ddiwethaf o leiaf. O ganlyniad, nid oes digon o ymwybyddiaeth, trosolwg a chraffu ar y gwasanaeth er ei fod yn hwylusydd hanfodol ar gyfer cyflawni uchelgeisiau'r Cyngor.

## Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr sy'n cefnogi ei bwyllgor Rheoli Datblygu

31 Mae gan y Cyngor God Ymarfer Cynllunio cynhwysfawr sy'n arwain aelodau ar weithdrefnau a threfniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Adolygodd y ddogfen hon ddiwethaf ym mis Mai 2022, ac mae yn y broses o'i hadolygu eto i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

32 Mae aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn derbyn cefnogaeth reolaidd i'w helpu i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau, a newidiadau i bolisïau cynllunio. Mae’r gwaith o sefydlu i'r Pwyllgor yn dda ac mae'r gwasanaeth yn cynnal sesiynau briffio a hyfforddiant rheolaidd i bob aelod. Gall y gefnogaeth gyson hon helpu pob aelod i ddeall rôl aelod o'r pwyllgor, rôl a phwrpas y pwyllgor yn ogystal â newidiadau i bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol.

# Argymhellion

**A1 Rheoli adnoddau**

Dylai'r Cyngor ddangos ei fod yn deall gofynion adnoddau'r gwasanaeth Cynllunio a Datblygu yn seiliedig ar ei ofynion a'i allu i helpu i lywio penderfyniadau adnoddau. (**Paragraff 16**)

**A2 Rheoli risgiau**

Dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwasanaeth yn nodi, rheoli a monitro ei risgiau er mwyn helpu'r Cyngor i ddeall sut y gall risgiau gwasanaeth effeithio ar gyflawni cyfrifoldebau'r gwasanaeth a blaenoriaethau'r Cyngor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. (**Paragraff 21**)

**A3 Trefniadau cynllunio gwasanaeth**

**Dylai'r Cyngor gydymffurfio â'i Fframwaith Rheoli Perfformiad a sicrhau bod gan y gwasanaeth Cynllunio a Datblygu cynllun gwasanaeth. (Paragraff 22)**

**A4 Monitro ac adrodd ar berfformiad**

**Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn rheoli, monitro ac** yn **adrodd ar weithgaredd a pherfformiad y Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu. Dylid cefnogi hyn â gwybodaeth am berfformiad gyfredol i helpu i wella dealltwriaeth y Cyngor o berfformiad y gwasanaeth. (Paragraff 31)**

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad hwn yn canolbwyntio ar y tîm Rheoli Datblygu a'r Tîm Polisi Cynllunio Strategol yng Ngwasanaeth Cynllunio a Datblygu'r Cyngor.

Edrychom ar y canlynol:

- a all y Cyngor ddangos bod y gwasanaeth yn alluogwr allweddol i gefnogi cyflawni ei amcanion llesiant;
- cynllunio a rheoli adnoddau'r gwasanaeth;
- a oes rolau a chyfrifoldebau clir yn y gwasanaeth;
- a yw'r Cyngor yn rheoli perfformiad y gwasanaeth.

Rydym yn nodi perfformiad y gwasanaeth (**Atodiad 2**) ond nid ydym yn archwilio'r rhesymau dros ei berfformiad nac yn rhoi barn arno.

Nid ydym yn edrych ar benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol.

Cynhaliom yr archwiliad hwn rhwng Gorffennaf ac Awst 2025.

## Cwestiynau a meini prawf yr archwiliad

### Cwestiynau

Ceisiodd yr archwiliad hwn ateb y cwestiynau canlynol:

- A all y Cyngor ddangos bod y Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu yn alluogwr allweddol i gefnogi cyflawni ei amcanion llesiant?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i gynllunio a rheoli adnoddau ei Wasanaeth Cynllunio a Datblygu?
- A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir i gefnogi cyflawni gweithredol?
- A yw'r Cyngor yn rheoli perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu?

## Meini prawf

Fe wnaethom asesu p'un:

- a yw'r Cyngor yn glir ynghylch rôl a swyddogaeth y gwasanaeth;
- a oes gan y Cyngor nodau ac amcanion ar gyfer y gwasanaeth;
- a yw'n amlwg sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor;
- a yw swyddogion o'r gwasanaeth yn mynychu grwpiau corfforaethol neu strategol ar gyfer datblygiadau mawr y Cyngor ac a oes ganddynt gysylltiad da â gwasanaethau eraill y Cyngor i ddarparu cymorth a chyngor;
- a oes gan y gwasanaeth gynllun busnes (neu gynllun cyfatebol);
- a yw'r Cyngor yn deall risgiau, heriau, gofynion adnoddau (cyllid a staff) y gwasanaeth gan gynnwys y galw a'r capasiti;
- a yw'r Cyngor wedi asesu ei allu a'i anghenion adnoddau i gyflawni ei ymrwymiadau yn ei Gynllun Datblygu Lleol cyfredol 2018-2033 ac iteriad nesaf y Cynllun hwn;
- a oes gan y Cyngor drefniadau gweithdrefnol pwyllgor ar gyfer ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ac a yw'n adolygu'r rhain yn rheolaidd;
- a yw aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r staff yn y gwasanaeth yn cael eu sefydlu'n briodol ac yn derbyn hyfforddiant a chymorth priodol;
- a oes gan y Cyngor drefniadau ar gyfer adrodd a chraffu ar berfformiad y gwasanaeth;
- a all y Cyngor ddangos sut mae'n ymateb i heriau a chyfleoedd gwasanaeth;
- a yw'r Cyngor yn meincnodi perfformiad y gwasanaeth er mwyn ei gymharu â gwasanaethau cynllunio eraill.

Llywiwyd datblygiad cwestiynau a meini prawf ein harchwiliad gan ein gwybodaeth gronnol o'n hadolygiadau mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill.

# Dulliau


Fe wnaethom ddarllen dogfennau, gwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a chyfweld â swyddogion ac aelodau.

# 2 Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu

Bob chwarter, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn adrodd data perfformiad i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd tri dangosydd perfformiad yn gyhoeddus. Mae cyhoeddi'r wybodaeth hon yn caniatáu cymariaethau o berfformiad y gwasanaeth. Fe wnaethom adolygu'r data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025. Ar adeg yr archwiliad hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data perfformiad o fis Ebrill 2025 ymlaen.

Isod mae perfformiad y gwasanaeth o'i gymharu â'r ACLlau eraill.

**Arddangosyn 1: canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn amserlenni statudol a chytunedig**





Ffynhonnell: Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW.CYMRU, Gorffennaf 2025

Ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025, roedd y gwasanaeth yn perfformio'n gyson ymhell yn is na chyfartaledd Cymru ar

gyfer canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn amserlenni statudol cytunedig.


### Arddangosyn 2: amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau cynllunio, mewn diwrnodau




Ffynhonnell: Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW.CYMRU, Gorffennaf 2025

Ar wahân i Ch1 2024-25 (mis Ebrill i fis Fehefin 2024) a Ch4 2024-25 (mis Ionawr i fis Mawrth 2025), perfformiodd y gwasanaeth yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru dros y cyfnod o ddwy flynedd o ran amser cyfartalog mewn diwrnodau i benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**Arddangosyn 3: canran penderfyniadau’r Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhellion swyddogion**





Ffynhonnell: Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW.CYMRU, Gorffennaf 2025

Ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025, ni wnaeth y pwyllgor Rheoli Datblygu unrhyw benderfyniadau yn groes i argymhellion swyddogion.


Fe wnaethom hefyd adolygu ffurflenni perfformiad chwarterol y Cyngor i Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025. Er bod y gwasanaeth yn adrodd yr wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru, nid yw Llywodraeth Cymru yn adrodd yr wybodaeth hon yn gyhoeddus. Felly, ni allwn gyflwyno gwybodaeth am berfformiad gymharol ar gyfer **Arddangosion 4 i 6** gydag ACLI eraill.

**Arddangosyn 4: canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt mewn 84 diwrnod neu lai**





Ffynhonnell: Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW.CYMRU, Gorffennaf 2025

**Arddangosyn 5: amser cyfartalog a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol, mewn diwrnodau**




Ffynhonnell: Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW.CYMRU, Gorffennaf 2025

**Arddangosyn 6: amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr, mewn diwrnodau**




Ffynhonnell: Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW.CYMRU, Gorffennaf 2025

# 3 Buddion y Cynllun Gwasanaeth

Mae sawl budd o gael cynllun gwasanaeth. Gall wneud y canlynol:

- adlewyrchu ystod gweithgarwch a chyfraniadau'r gwasanaeth i'r Cyngor;
- helpu'r Cyfarwyddwr a'r Aelod Cabinet i nodi camau gweithredu a mesurau perfformiad sy'n cefnogi Cynllun Busnes Cymunedau a blaenoriaethau corfforaethol;
- nodi dyheadau perfformiad y gwasanaeth;
- cynnwys camau gwella'r gwasanaeth;
- cynnwys heriau, blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol;
- nodi risgiau gwasanaeth a chamau lliniaru;
- darparu strwythur ar gyfer ymsefydlu i'r gwasanaeth;
- llywio anghenion adnoddau staffio yn y dyfodol;
- darparu strwythur ar gyfer monitro ac adrodd perfformiad.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.